



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gwella Iechyd y Geg i Bobl Hŷnsy'n Byw mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru

Cyflawni'r rhaglen Gwên am Byth dros
y cyfnod o 1 Ebrill 2019 hyd 31 Mawrth 2020

Gwella Iechyd y Geg ar gyfer Pobl Hŷn sy'n byw mewn Cartrefi Gofal yng Nghymru

Darparu'r rhaglen Gwên am Byth o 1 Ebrill 2019 hyd 31 Mawrth 2020

Crynodeb Gweithredol:

Gwelwyd gostyngiad o 16 yn nifer y cartrefi, o 657 yn 2017/18 i 641 yn 2019/20, yn bennaf am fod cartrefi wedi cau.

- Mae 67.7% o gartrefi gofal wedi'u targedu i gymryd rhan yn y cynllun Gwên am Byth (GaB).
- Targedwyd 434 o gartrefi o gymharu â 340 yn y flwyddyn flaenorol.
- O blith y cartrefi gofal a dargedwyd, mae 91.5% yn cymryd rhan yn llawn/yn rhannol.
- Nid yw 37 o gartrefi yng Nghymru wedi dechrau cymryd rhan eto. Penderfynodd 19 o gartrefi beidio â pharhau a thynnwyd 14 yn ôl gan y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol (GDC) oherwydd diffyg ymgysylltu.
- Ers i'r rhaglen gael ei lansio yn 2016, mae nifer y cartrefi sy'n cymryd rhan lawn wedi cynyddu o 16 i 310.
- Mae cynllun gofal y geg yn cael ei ddarparu i 7,597 o breswylwyr.
- Cafwyd adborth cadarnhaol gan staff cartrefi gofal, preswylwyr, gofalwyr a staff y GDC sy'n darparu'r rhaglen.
- Mae staff cartrefi gofal yn ymgysylltu â'r rhaglen, ac mae ganddynt farn fwy cadarnhaol ynghylch pwysigrwydd a gwerth gofal ceg da.
- Ceir enghreifftiau o arfer arloesol, er bod rhwystrau i gyflawni'r rhaglen yn parhau.

Mae'r rhaglen bellach yn rhan annatod o'r rhaglen *Cartrefi Gofal Cymru* a gaiff ei hariannu gan Lywodraeth Cymru a'i darparu gan Gwella Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r integreiddio hwn gyda Gwella Cymru wedi cryfhau GaB ymhellach fel rhan annatod o waith gwella iechyd y geg cenedlaethol i Gymru ar gyfer oedolion.

Ers Ionawr 2020 mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu cyfanswm yr arian a roddir i fyrddau iechyd o £249,500 i £500,000 i gefnogi'r rhaglen GaB. Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r rhaglen fod ar gael ym mhob cartref gofal i bobl hŷn yng Nghymru, a bydd yn disgwyl i'r rhaglen gael ei chynnig i bob cartref gofal o'r fath. Mae'r adroddiad cyfredol hwn yn dangos cynnydd a chanlyniadau da, er gwaethaf y flwyddyn anodd a heriol a fu ohoni. Mae hefyd yn cefnogi'r achos dros gynyddu capasiti'r gwasanaeth a sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chynnig i bob cartref gofal ar gyfer pobl hŷn.

1. Cyflwyniad – Mae COVID-19 wedi amharu'n fawr ar ddarparu Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a rhaglenni iechyd y geg seiliedig ar y boblogaeth ledled Cymru. O gofio'r angen i warchod preswylwyr agored i niwed mewn cartrefi gofal, aeth Llywodraeth Cymru ati i ohirio cysylltiad wyneb yn wyneb yn ystod cam cyntaf y pandemig. Caiff y sefyllfa ei hadolygu'n rheolaidd a bydd timau lleol yn cael eu tywys gan ddarparwyr gwasanaethau ynglŷn â lefel y gweithgarwch ym mhob cartref gofal. Mae timau GaB wedi cadw mewn cysylltiad cyson â chartrefi gofal drwy gydol y pandemig, gan fonitro a rheoli anghenion a ddaw i'r amlwg, pan fo'n briodol.

1.1 Mae'r adroddiad blynyddol yn cydnabod yr effaith sylweddol a gaiff y pandemig COVID-19 ar gartrefi gofal ledled Cymru. Mae rheoli heintiau ac ynysu mewn cartrefi gofal yn llawer anos nag mewn amgylchedd clinigol a reolir mewn ysbyty neu glinig deintyddol. Yn aml, mae pobl sy'n derbyn gofal cymdeithasol â chyflyrau iechyd sy'n bodoli eisoes, ac mae'r rhain yn eu gwneud yn fwy agored i gael eu heintio â COVID-19 a marw ohono. Mae rhai pobl angen help corfforol gydag agweddau ar eu bywyd bob dydd, fel bwyta, ymolchi a gofal y geg, gan ei gwneud hi'n anodd iawn iddynt ynysu'n llwyr.

Yn ychwanegol at hyn, yn aml nid yw gofalwyr gofal cymdeithasol yn cael tâl da iawn ac nid yw eu contractau'n ddiogel. Ymhellach, mae'r sector yn dameidiog o fewn sefydliadau sy'n darparu gofal, a chaiff pryderon eu codi ynglŷn â darpariaeth ddigonol o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gyfer staff mewn cartrefi gofal. Yn aml, mae gweithwyr gofal cymdeithasol angen dod i gysylltiad corfforol agos iawn â'r rhai maent yn gofalu amdanynt, ac mewn cartrefi gofal mae nifer o bobl yn byw yn yr un adeilad neu'r un cyfleuster. Mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd y feirws yn cael ei drosglwyddo ymhlith y staff a'r preswylwyr.

Efallai nad yw arferion hylendid y geg fel petaent yn flaenoriaeth allweddol i breswylwyr yn ystod pandemig, ond bydd gofal ceg da nid yn unig yn gwella iechyd y geg ymhlith y preswylwyr ac yn atal poen a haint yn y geg, ond bydd hefyd yn cael effaith ar eu hurddas a'u hiechyd a'u llesiant cyffredinol. I breswylwyr sydd â nam ar eu hiechyd, mae problemau iechyd y geg yn cael effaith sylweddol ar eu llesiant ac mae'n allweddol i'r rhai sydd â phroblemau anadlu. Rhaid i GaB sicrhau bod cartrefi gofal wedi'u grymuso'n llwyr i barhau i ddarparu gofal ceg da pe bai ail don yn digwydd.

1.2 Nod allweddol y rhaglen yw gwella hylendid y geg a gofal y geg ar gyfer pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal trwy ddatblygu dull cyson ar gyfer Cymru gyfan. Yn y cyd-destun hwn, mae 'cartref gofal' yn cynnwys cartrefi nyrsio a chartrefi preswyl ar gyfer pobl hŷn – gan gynnwys y rhai ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Egwyddorion y rhaglen yw y bydd cartrefi gofal yn sicrhau:

- bod polisi gofal ceg cyfredol ar waith;

- bod staff yn cael eu hyfforddi mewn gofal y geg (gan gynnwys yn ystod y cyfnod cynefino) a bod y cartref yn cadw cofrestr hyfforddiant;
 - cynhelir asesiad risg o'r geg sy'n arwain at gynllun gofal unigol;
 - caiff cynllun gofal y geg ei gyflawni a'i ddogfennu;
 - mae gan y preswylwyr adnoddau gofal ceg priodol ar gyfer eu cynllun gofal (e.e. brwsh dannedd a phast dannedd fflworid uchel);
 - mae staff cartrefi gofal yn gwybod pwy yw'r gwasanaethau deintyddol lleol ar gyfer eu preswylwyr; a
 - gofynnir i breswylwyr (a pherthnasau os yw'n briodol) am adborth ar eu gofal ceg.

1.3 Dyma'r pumed adroddiad blynyddol ar gyflawni'r rhaglen. Oherwydd effaith y pandemig, cynghorir y darllenwyr i gyfeirio at y pedwerydd adroddiad blynyddol am fanylion ychwanegol.

<https://llyw.cymru/iechyd-y-geg-i-bobl-hyn-syn-byw-mewn-cartrefi-gofal-adroddiad-2018-i-2019>

1.4 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys enghreifftiau'n ymwneud â darparu'r rhaglen, data ac arferion da ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

2. Casglu a darparu data hyd yn hyn

2.1 Cyflwynodd pob GDC yng Nghymru ddata ac adroddiad ansoddol ysgrifenedig byr ar weithgarwch y flwyddyn i Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru (WOHIU) Prifysgol Caerdydd.

2.2 Mae cyfanswm nifer y cartrefi gofal wedi newid o'r waelodlin wreiddiol o 697 ym mis Ebrill 2015. Gwelwyd gostyngiad o 16 yn nifer y cartrefi, o 657 yn 2017/18 i 641 yn 2019/20, yn bennaf am fod cartrefi wedi cau.

i) Dangosir data wedi'i goladu'n llawn yn Atodiad 1. Ceir crynodeb isod sy'n cynnwys ffigurau'r llynedd mewn cromfachau lle gellir gwneud cymariaethau ystyrlon. Mae'n dangos cynnydd a darpariaeth gynyddol ym mhob maes:

- Targedwyd 67.7% (52.3%) o gartrefi gofal i gymryd rhan yn y rhaglen – capasiti staff yw'r prif ffactor sy'n cyfyngu ar nifer y cartrefi sydd wedi'u targedu
- Targedwyd 467 o gartrefi, o gymharu â 340 o gartrefi a dargedwyd y llynedd.

O blith y cartrefi gofal a dargedwyd;

- Mae 310 yn cymryd rhan lawn ac mae 87 yn cymryd rhan yn rhannol. Nid yw 37 cartref wedi dechrau cymryd rhan eto. Penderfynodd 19 o gartrefi beidio â pharhau a thynnwyd 14 yn ôl gan y GDC oherwydd diffyg ymgysylltu.

Cyfanswm nifer y cartrefi yn y BILL ar 1 Ebrill 2019	641
Cyfanswm nifer y cartrefi a dargedwyd ar gyfer y rhaglen	467
Cymryd rhan yn llawn ym mhob agwedd ar y rhaglen	310
Cymryd rhan yn rhannol*	87
Ddim yn cymryd rhan eto	37
Penderfynodd y cartref beidio â pharhau â'r rhaglen	19
Mae Arweinydd y GDC wedi tynnu'n ôl o'r cartref gofal oherwydd diffyg ymgysylltu	14
% WEDI'U TARGEDU (Enwadur = pob cartref)	67.7
% sy'n cymryd rhan yn llawn fel % o'r HOLL gartrefi	61.9
% sy'n cymryd rhan yn llawn fel % o'r cartrefi a DARGEDWYD	91.5

- Mae gan 311 (288) bolisi gofal ceg cyfredol.
- Mae 352 (282) yn gwybod pwy yw'r gwasanaethau deintyddol lleol sydd ar gael i'w preswylwyr.
- Darparwyd 1086 (524) o sesiynau hyfforddi gan staff y GDC i 7,555 (5,211) o aelodau staff cartrefi gofal.
- Mae 1202 (780) o hyrwyddwyr gofal y geg wedi cael eu hyfforddi gan y GDC, ac mae nifer ohonynt bellach yn hyfforddi staff yn y cartrefi gofal lle maent yn gweithio 435 (336).
- Mae 12,476 o breswylwyr yn byw yn y 310 o gartrefi sy'n cymryd rhan llawn. O blith y rhain, mae cyfanswm o 7,728 (61%) wedi cael asesiad o'r geg. Y llynedd, cafodd 5,645 (55%) o breswylwyr asesiadau o'r geg.
- Mae 7,728 (5,645) o breswylwyr yn cael asesiad rheolaidd o'r geg.
- Mae gan 7,597 (5,670) o breswylwyr gynllun gofal y geg sy'n cael ei weithredu.
- Mae 15 (8) o'r cartrefi sy'n cymryd rhan wedi cael arolygiad neu adolygiad allanol sydd wedi amlygu gofal ceg da neu ragorol, ac mae 8 (2) adolygiad allanol wedi tynnu sylw at ofal ceg annigonol. Mae cartrefi gofal lle nodwyd bod gofal y geg yn annigonol yn cael cymorth ychwanegol gan y GDC, a cheisir sicrwydd gan aseswyr nyrsio lleol.

3. Adborth

Cynyddu'r arian ar gyfer Gwên am Byth:

Ym mis Rhagfyr 2019 cyhoeddwyd y byddai mwy o arian ar gael ar gyfer Gwên am Byth, a chroesawyd hyn gan yr holl Fyrddau lechyd. I'r gwrthwyneb, yn sgil ôl-

effeithiau'r ymateb cenedlaethol brys i COVID-19, bu'n rhaid gohirio unrhyw gynlluniau uniongyrchol i ymestyn y rhaglen yn gyflym. Ar y pryd, nid oedd y rhan fwyaf o weithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn gallu cael mynediad at staff a phreswylwyr cartrefi gofal ar gyfer cysylltiad wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, parhaodd nifer o dimau deintyddol cymunedol lleol i gadw mewn cysylltiad â'r cartrefi gofal trwy e-bost a dros y ffôn. Cafodd 'Cwtch Cartrefi Gofal', sef rhwydwaith cefnogaeth gan gymheiriaid ar gyfer rheolwyr cartrefi gofal, ei sefydlu gan Cartrefi Gofal Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, er mwyn helpu a chynorthwyo rheolwyr cartrefi gofal yn ystod y pandemig a thu hwnt. Mae'r platfform hwn yn cynnig cyfle i arweinwyr Gwên am Byth integreiddio â staff cartrefi gofal i ddarparu gwybodaeth am hylendid ac iechyd y geg a chyflwyno sesiynau meithrin sgiliau. Yng nghyswllt yr arian ychwanegol, disgwylir y bydd Byrddau Iechyd yn adrodd ar eu gwariant yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Llawlyfr adnoddau:

Aeth "Cartrefi Gofal Cymru" ati i ariannu cost llawlyfr adnoddau Gwên am Byth ar gyfer pob Cartref Gofal ledled Cymru. Ers i'r cyhoeddiad gael ei ryddhau, gwelwyd cynnydd mawr yn nifer y cartrefi gofal sydd wedi ymrwmo i fod yn rhan o'r rhaglen. Dyma a ddywedodd un rheolwr cartref gofal am y llawlyfr adnoddau:

"Mae'n cyd-fynd yn berffaith â phhecyn hyfforddi a brynais lle rydym yn canolbwyntio bob mis ar faes arbennig, fel syrthio, briwiau pwyso ac ati. Felly nawr, fe fydd gennym ni fis lle byddwn ni'n canolbwyntio ar ofal y geg. Yna, fe fydda i'n gofyn i'r staff gwblhau'r llawlyfr cynefino." Cartref Gofal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Hyfforddiant:

Ar y cyfan, mae'r GDC yn parhau i gael adborth cadarnhaol yn y sesiynau hyfforddi a gyflwynant i staff cartrefi gofal. Mae'r sesiynau hyn mor rhyngweithio â phosibl, a chaiff staff cartrefi gofal eu hannog i ofyn cwestiynau a mynd i'r afael ag elfennau ymarferol, fel brwsio dannedd eu cydweithwyr a/neu ddefnyddio modelau deintyddol.

"Fe wnes i wir fwynhau'r sesiwn hyfforddi - roedd hi mor rhyngweithiol ac yn llawn gwybodaeth. Roedd yr holl staff a gymerodd ran ynddi yn teimlo'n bositif wedyn, ac yn awyddus i wneud newidiadau. Mae'r ffeil a gefais yn wych ac alla i ddim argymell digon ar y rhaglen."

Nyrs Arweiniol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

"Yn ddiweddar fe wnaeth rheolwr gymryd rhan yn yr hyfforddiant sylfaen a'r hyfforddiant i hyrwyddwyr gyda'i staff. Dywedodd ei bod wedi dysgu mwy am ofal y geg yn y ddwy sesiwn yma nag a wnaeth yn ystod y 40 mlynedd y bu'n gweithio yn y maes gofal."

Cartref Gofal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Mae timau GaB wedi rhwydweithio gyda thimau ehangach yn ymwneud â gofal pobl hŷn mewn digwyddiadau iechyd, er enghraifft Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Nyrsys Dysffagia, Nyrsys Lliniarol, Nyrsys Cymunedol a Therapyddion Galwedigaethol. Mae'r rhwydweithio hwn wedi cynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi ar y cyd, fel ymestyn yr hyfforddiant i ddisgyblaethau eraill megis 'Fframwaith Cynefino Cymru Gyfan ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd'.

'Fe wnaeth Cyngor Rhondda Cynon Taf gysylltu gyda ni i gynorthwyo i gyflwyno sesiynau gofal y geg Fframwaith Cynefino Cymru Gyfan i'w staff. Mae'r staff yma'n gweithio mewn cartrefi gofal a gaiff eu rhedeg gan y cyngor a hefyd mewn cartrefi gofal preifat. Rydyn ni'n cyflwyno pedair sesiwn bob blwyddyn ac mae'r adborth wedi bod yn eithriadol o gadarnhaol. Cafodd cyfanswm o 26 o Aseswyr Ansawdd a 9 o Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd eu hyfforddi.'

GDC, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Mewn rhai byrddau iechyd, roedd hyn yn cynnwys ystyriaethau ar gyfer y rhai sy'n darparu hyfforddiant mewn lleoliadau gofal cartref.

Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Cymru:

Ceir cysylltiadau cryf gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae timau GDC ledled Cymru yn cynorthwyo ac yn cysylltu ag arolygwyr er mwyn sicrhau bod gofal y geg yn rhan o'r broses adrodd. Hyd yn hyn, pan adroddir am ofal y geg, mae'r sefyllfa yn gadarnhaol iawn:

'Daeth gweithiwr proffesiynol yn ymwneud ag iechyd y geg i'r cartref yn ystod yr arolygiad, a dangosodd i ni'r pecyn hyfforddi newydd y gall hyrwyddwyr iechyd y geg ei ddefnyddio i hyfforddi gweithwyr gofal newydd. Roedd hi'n bositif iawn ynglŷn â'r gofal a gâi ei ddarparu ar gyfer y geg ac yn frwd ynglŷn â'r hyrwyddwyr iechyd y geg.' Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

'Fe wnaethon ni ddarllen cofnodion hyfforddi a oedd yn nodi bod gweithwyr gofal wedi mynychu hyfforddiant rheolaidd yn cynnwys Cafodd hyn ei gadarnhau wrth siarad gyda gweithwyr gofal. Dywedodd un ohonyn nhw ei bod wedi cael hyfforddiant trwy gyfrwng 'gwella gofal y geg – i bobl mewn lleoliadau iechyd a gofal yng Nghymru' gan 1000 o Fywydau GIG Cymru, a'i bod bellach yn hyrwyddwr iechyd y geg sy'n gyfrifol am hyfforddi gweithwyr gofal newydd ynglŷn â gofal ceg da.'

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

'Hefyd, fe wnaethon ni siarad gydag uwch-weithiwr gofal a oedd yn un o "Hyrwyddwyr Iechyd y Geg" yn y cartref. Dywedodd wrthym ni am yr asesiadau mae hi'n eu cynnal a'r gwaith monitro parhaus mae hi'n ei wneud ar gyfer iechyd y geg. Roedd hi hefyd yn gyfrifol am hyfforddi gweithwyr gofal newydd

ynglŷn â Gofal y Geg. Fe welon ni fod iechyd y geg yn cael ei fonitro a'i gofnodi yng nghofnodion gofal y bobl.'

Calonogol yw gallu dweud bod rhai timau GaB yn llwyddo i gyfleu'r manteision a ddaw yn sgil darparu iechyd ceg da i'r preswylwyr, a bod y gwaith dogfennu wedi cael croeso cadarnhaol:

"Mae fy nannedd yn teimlo'n lân ac rydw i'n hapus i'w dangos."

Preswylydd mewn cartref gofal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

"Mae'r adborth o ran cyflwyno gwaith papur mewn cartrefi gofal dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn bositif. Mae staff cartrefi gofal yn cydnabod yr angen a'r pwysigrwydd o ddogfennu pryd, ac os, cafodd gofal y geg ei ddarparu, ac os na chafodd ei ddarparu, pam felly. Mae hyn yn welliant mawr ar y llynedd, pan oedd y staff yn teimlo ar y cychwyn fod y gwaith papur yn llethol a phan oedden nhw'n gyndyn iawn o ysgwyddo mwy o waith papur."

"O'r blaen, roedd yna anghysondeb o ran gofal y geg; doedd staff gofal ddim yn cyflwyno tystiolaeth fod gofal o'r fath yn cael ei ddarparu ddwywaith y diwrnod, yn ôl yr angen."

Cartref Gofal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dogfennau Electronig:

Mae cartrefi gofal sy'n ymhél â'r rhaglen yn cymryd perchnogaeth ar y rhaglen GaB trwy sicrhau bod asesiadau a chynlluniau gofal yn cael eu hymgorffori yn yr holl waith sy'n gysylltiedig â monitro gofal iechyd. Caiff hyn ei ategu gan y tîm GaB, sy'n sicrhau bod gofynion Sicrhau Ansawdd mewn perthynas â'r gwaith dogfennu yn cwrdd ag amcanion Llywodraeth Cymru.

Mae rhai Byrddau Iechyd yn gweld bod mwy o gartrefi gofal yn symud tuag at ddulliau monitro electronig a bod nifer o wahanol systemau ar waith. Mae cwmnïau corfforaethol yn dal i ddefnyddio'u dull dogfennu eu hunain. Mae Grŵp Gweithredu Cenedlaethol GaB wedi bod yn gweithio gyda chwmnïau meddalwedd digidol (ac yn dal i weithio gyda nhw) er mwyn sicrhau bod yr asesiadau a'r cynlluniau gofal yn cael eu lanlwytho ar eu systemau, fel y gall cartrefi gofal gael mynediad atynt.

Grŵp Gweithredu Lleol:

Mae timau GaB yn adrodd ar ddiddordeb a chefnogaeth eu grŵp gweithredu lleol. Mae cyfarfodydd rhagweithiol parhaus rhwng grwpiau gweithredu rhanbarthol yn cynnwys trafodaethau ynglŷn â sut gellir profi'r manteision iechyd i'r preswylwyr. Mae cyfranogwyr o ystod eang o broffesiynau iechyd a gofal amlddisgyblaethol yn mynychu'r cyfarfodydd hyn.

Sicrhau Ansawdd:

Yr hyn sydd wrth galon a chraidd Gwên am Byth yw'r preswylwyr eu hunain, ac o'r herwydd, rhan hanfodol o'r rhaglen yw sicrhau nad ymarfer 'tic yn y blwch' yn unig yw'r rhaglen. Mae'r hyn sy'n digwydd y naill ddiwrnod ar ôl y llall yn hanfodol o ran sicrhau bod y preswylwyr yn cael y gofal ceg mwyaf priodol er mwyn helpu i ategu eu hiechyd a'u llesiant cyffredinol. Yn ôl byrddau iechyd, mae cartrefi gofal yn ymhél yn llwyr â phrosesau sicrhau ansawdd misol.

"Caiff prosesau sicrhau ansawdd eu cynnal gan dimau GaB bob mis ar gyfer cartrefi gofal sy'n newydd i'r rhaglen, a bob chwarter ar gyfer cartrefi gofal sy'n bodloni'r gofynion sicrhau ansawdd priodol." Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Cysylltiadau â'r Tîm Gofal Sylfaenol ehangach:

Mae'r cysylltiadau cryf gyda swyddogion contractau a swyddogion monitro'r awdurdod lleol yn parhau. Caiff cysylltiadau a gwahoddiadau rheolaidd eu hestyn i arweinwyr GaB i fynychu cyfarfodydd tîm a rhoi'r diweddaraf am y rhaglen. Yn ystod yr arolygiadau, mae'r swyddogion monitro'n sicrhau bod gofal y geg wedi'i ymwreiddio. Caiff asesiadau gofal y geg, cynlluniau gofal a hyfforddiant, ynghyd ag argymhellion, eu cynnwys yn aml yn eu hadroddiadau arolygu.

Mae un adroddiad yn sôn am y canlynol:

"Peth positif iawn oedd bod rheolwr y cartref wedi trefnu hyfforddiant gofal iechyd y geg ar gyfer y staff. Mae'r staff yn defnyddio'r dogfennau ategol yn rheolaidd. Hefyd, caiff y Cartref ei annog i archwilio'r syniad o gyflwyno "Hyrwyddwyr" lechyd y Geg er mwyn gwella mwy ar y gwasanaeth." Cartref Gofal ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Cysylltiadau â thimau deintyddol:

Mae cyfathrebu'n allweddol wrth lwyddo i ddarparu'r rhaglen hon, ac mae Timau Deintyddol Cyffredinol a Chymunedol mewn cysylltiad rheolaidd gyda thimau GaB.

"Gwelais un o'u preswylwyr fel claf gofal cartref heddiw. Dywedodd ei bod hi'n hoffi brwsio'i dannedd yn rheolaidd, ond weithiau dyw hi ddim yn cael ei brws dannedd. Dywedodd nad yw hynny'n teimlo fel pe bai yna ddigon o bwyslais ar ofal y geg. Fe wnes i fwydo hyn yn ôl i'r rheolwr heddiw." Deintydd Cymunedol

Rhwystrau

Yn anffodus, mae yna broblem barhaus o ran sesiynau'n cael eu canslo ar fyr rybudd a mwy a mwy o sesiynau'n cael eu torri'r fyr oherwydd ymyriadau yng nghanol y sesiwn. Weithiau, caiff staff cartrefi gofal eu galw'n ôl at eu dyletswyddau i 'helpu' yn y cartref gofal. Yn rhwystredig ddigon, mae hi'n gyffredin gweld llond llaw

yn unig o staff yn mynychu sesiynau hyfforddi, er bod timau GaB wedi ymdrechu'n ddyfal i gysylltu gyda'r cartref gofal ymlaen llaw.

Mae'r sector yn recriwtio mwy a mwy o staff asiantaeth. Gall hyn arwain at broblemau o ran ennyn diddordeb rhai timau cartrefi gofal a chymell y staff i fynychu'r sesiynau hyfforddi. Fodd bynnag, mae un tîm GaB yng Ngogledd Cymru wedi nodi lleihad yn nifer y sesiynau hyfforddi a chymorth a gaiff eu canslo. Mae angen i dimau GaB eraill ddysgu gwersi gan y tîm hwn a cheisio ailadrodd hyn ar draws ardaloedd Byrddau Iechyd eraill. Mae trosiant uchel ymhlith staff cartrefi gofal yn dal i fod yn broblem. Yn yr un modd, mae rhai timau GDC wedi dioddef eu problemau eu hunain o ran trosiant staff. Mae un Bwrdd Iechyd wedi nodi ei fod yn cael anawsterau i ôl-lenwi swyddi yn ystod cyfnodau o absenoldeb mamolaeth.

Mae'r ffaith fod cartrefi gofal yn cau, a'r ffaith nad oes digon o amser yn cael ei neilltuo i staff gofal gwblhau eu gwaith papur, yn parhau.

Atodiad 1


TABLAU a FFIGURAU MONITRO CARTREFI GOFAL 2019/20

Tabl 1 TARGEDU

O blith y cartrefi sydd wedi'u targedu, faint ohonynt sy'n:										
BILI	Nifer y cartrefi ar 1 Ebrill 2019	Nifer y cartrefi sydd wedi'u targedu ar gyfer y rhaglen	Cymryd rhan llawn ym mhob agwedd ar y rhaglen	Cymryd rhan yn rhannol*	Ddim yn cymryd rhan eto	Y cartref gofal wedi penderfynu peidio â pharhau â'r rhaglen	Arweinydd y GDC wedi tynnu'n ôl o'r cartref gofal oherwydd diffyg ymgysylltu	% WEDI'U TARGEDU (Enwadur = pob cartref)	% sy'n cymryd rhan yn llawn ac yn rhannol fel % o'r HOLL gartrefi	% sy'n cymryd rhan yn llawn ac yn rhannol fel % o'r cartrefi a DARGEDWYD
Aneurin Bevan	94	85	64	2	19	0	4	90.4	70.2	77.6
Betsi Cadwaladr	217	128	94	34	0	11	6	59.0	59.0	100.0
Caerdydd a'r Fro	61	36	36	0	0	0	0	59.0	59.0	100.0
Cwm Taf	48	34	30	2	2	0	0	70.8	66.7	94.1
Hywel Dda	101	52	24	22	6	3	3	51.5	45.5	88.5
Powys	32	14	9	2	3	2	1	43.8	34.4	78.6
Bae Abertawe	88	85	53	25	7	3	0	96.6	88.6	91.8
CYMRU	641	434	310	87	37	19	14	67.7	61.9	91.5

*Gwelwyd gostyngiad o 16 yng nghyfanswm nifer y cartrefi, o 657 yn 2017/18 i 641 yn 2019/20, yn bennaf am fod cartrefi wedi cau

Ffigur 1 Nifer y cartrefi gofal i bobl hŷn a'r nifer a dargedwyd gan y BILI a Chymru, 2019/20




Tabl 2 Cartrefi sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ers 2015/16 hyd 2019/20, Cymru


	Blwyddyn				
	2016	2017	2018	2019	2020
Cymryd rhan yn llawn	17	67	170	287	310
Cymryd rhan yn rhannol	86	43	55	33	87
Wedi tynnu'n ôl*	0	1	3	33	33

* Yn cynnwys: "Penderfynodd y cartref gofal beidio â pharhau â'r rhaglen" ac "Mae Arweinydd y GDC wedi tynnu'n ôl o'r cartref gofal oherwydd diffyg ymgysylltu"

Ffigur 2 Cartrefi sy'n cymryd rhan yn y rhaglen, yn ôl lefel y cyfranogiad, 2019/20



Ffigur 3 Nifer y cartrefi sy'n cymryd rhan yn y rhaglen ledled Cymru, 2015/16 – 2019/20 (yn ôl graddau'r cyfranogiad)



Tabl 3 Cartrefi gofal â pholisïau gofal y geg cyfredol a'r rhai sy'n gallu dweud pwy yw eu gwasanaethau deintyddol lleol

			Nifer		Canran (yn seiliedig ar yr holl gartrefi)		Canran (yn seiliedig ar gartrefi a dargedwyd)	
	Cyfanswm nifer y cartrefi ar 1 Ebrill 2018	Y niferoedd a dargedwyd	Y nifer sydd â pholis i gofal ceg cyfredol	Nifer y cartrefi sy'n gallu dweud pwy yw eu gwasanaethau deintyddol lleol	% sydd â pholis i gofal ceg cyfredol	% y cartrefi sy'n gallu dweud pwy yw eu gwasanaethau deintyddol lleol	% sydd â pholis i gofal ceg cyfredol	% y cartrefi sy'n gallu dweud pwy yw eu gwasanaethau deintyddol lleol
ANEURIN BEVAN	94	85	83	94	88%	100%	98%	111%
BETSI CADWAL ADR	217	128	101	101	47%	47%	79%	79%
CAERDYDD A'R FRO	61	36	36	36	59%	59%	100%	100%
CWM TAF	48	34	31	31	65%	65%	91%	91%
HYWEL DDA	101	52	17	25	17%	25%	33%	48%
POWYS	32	14	9	11	28%	34%	64%	79%
BAE ABERTAWE	88	85	54	54	61%	61%	64%	64%
CYMRU	641	434	331	352	52%	55%	76%	81%

Tabl 4 Arolygiadau


BWRDD IECHYD LLEOL	Nifer y cartrefi sydd wedi cael arolygiad neu adolygiad allanol yn ystod y cyfnod adrodd lle tynnwyd sylw at ofal ceg da / rhagorol	Nifer y cartrefi sydd wedi cael arolygiad neu adolygiad allanol yn ystod y cyfnod adrodd lle tynnwyd sylw at ofal ceg annigonol
ANEURIN BEVAN	2	6
BETSI CADWALADR	0	0
CAERDYDD A'R FRO	0	0
CWM TAF	2	0
HYWEL DDA	5	gwag
POWYS	0	0
BAE ABERTAWE	6	2
CYMRU	15	8

STAFF CARTREFI GOFAL

Tabl 5 Hyfforddiant

	Nifer y staff iechyd a gofal sy'n gymwys i gael hyfforddiant	Hyrwyddwyr iechyd y Geg (HlyG) sydd wedi'u hyfforddi (gan y GDC)	Nifer y staff iechyd a gofal sydd wedi'u hyfforddi gan y GDC (heb gynnwys HlyG)	Nifer y staff a hyfforddwyd yn uniongyrchol gan HlyG	Nifer y sesiynau hyfforddiant a roddwyd i staff cartrefi gofal gan y tîm deintyddol
Aneurin Bevan	2589	128	2308	0	183
Betsi Cadwaladr	2809	555	2224	0	661
Caerdydd a'r Fro	1516	46	1014	0	15
Cwm Taf	1434	117	1255	15	50
Hywel Dda	679	86	328	71	91
Powys	276	5	15	0	7
Bae Abertawe	1742	265	411	349	79
CYMRU - 2020	11045	1202	7555	435	1086
CYMRU - 2019	9333	780	5211	336	524
CYMRU - 2018	7173	487	3510	328	489
CYMRU - 2017	4600	209	1892	73	290
CYMRU - 2016	4020	50	1338	0	121

Ffigur 4 Hyfforddiant yn 2019/20 o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol



PRESWYLLWYR CARTREFI GOFAL

Tabl 6 Asesiadau a chynlluniau gofal Preswylwyr Cartrefi Gofal

	Nifer y staff iechyd a gofal sy'n gymwys i gael hyfforddiant	Hyrwyddwyr iechyd y Geg (HlyG) sydd wedi'u hyfforddi (gan y GDC)	Nifer y staff iechyd a gofal sydd wedi'u hyfforddi gan y GDC (heb gynnwys HlyG)	Nifer y staff a hyfforddwyd yn uniongyrchol gan HlyG	Nifer y sesiynau hyfforddiant a roddwyd i staff cartrefi gofal gan y tîm deintyddol
Aneurin Bevan	2589	128	2308	0	183
Betsi Cadwaladr	2809	555	2224	0	661
Caerdydd a'r Fro	1516	46	1014	0	15
Cwm Taf	1434	117	1255	15	50
Hywel Dda	679	86	328	71	91
Powys	276	5	15	0	7
Bae Abertawe	1742	265	411	349	79
CYMRU - 2020	11045	1202	7555	435	1086
CYMRU - 2019	9333	780	5211	336	524
CYMRU - 2018	7173	487	3510	328	489
CYMRU - 2017	4600	209	1892	73	290
CYMRU - 2016	4020	50	1338	0	121

Ffigur 5 Asesiadau a chynlluniau gofal Preswylwyr Cartrefi Gofal

